Prifysgol Abertawe
Swansea University

I'w ddarllen cyn y cwrs

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Dyframaethu ar gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Dyframaethu

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Dyframaethu ar gyfer y dyfodol

Rhaglen hyfforddiant i'w defnyddio mewn gweithdai i helpu busnesau bach a chanolig eu maint i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu harferion busnes.

Defnydd i'w ddarllen cyn y cwrs

Ystyrir datblygiad cynaliadwy yn aml yn fater amgylcheddol, ond mae hi yr un mor wir mai mater o greu cyfoeth a mynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder ydyw.

Pwrpas y gweithdy

Diolch yn fawr am gofrestru i ddysgu mwy am ddatblygiad cynaliadwy ac am y ffyrdd y gallai'ch busnes chi ymateb i'r heriau a gyflwynir ganddo. Mae rhwymedigaeth ar y Cynulliad Cenedlaethol i hybu datblygiad cynaliadwy ac mae'n cynllunio gweithrediadau fydd yn effeithio ar bawb yng Nghymru, gan gynnwys busnesau mawr a mân. Mae gweithio tuag at gynaladwyedd yn creu llu o gyfleoedd busnes ac mae'n gallu gwella meintiau elw, ond efallai hefyd y bydd rhaid i fusnesau newid eu ffyrdd o weithredu os ydynt am ddiwallu gofynion mwy llym ar ran y llywodraeth.

Fe fydd y gweithdy'n eich helpu i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eich arferion busnes. Fe fyddwch yn gallu achub y blaen ar y galw cynyddol fydd arnoch i weithredu mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Ac yn benodol fe fyddwch yn fwy cymwys i:

- Esbonio'r termau datblygiad cynaliadwy a chynaladwyedd i'ch gweithlu a'ch cwsmeriaid.
- Asesu sut gallai pwysedd gan y llywodraeth, cyflogwyr a chwsmeriaid o blaid datblygiad cynaliadwy effeithio ar eich busnes.
- Cymhwyso syniadaeth 'asiedig' at ddarganfod atebion i broblemau ynghylch busnes a chynaladwyedd.
- Defnyddio technegau sy'n eich helpu i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eich cynllunio busnes.
- Paratoi cynllun gweithredu datblygiad cynaliadwy.
- Cael mwy o gyngor a chefnogaeth gan sefydliadau yng Nghymru.

Gwybodaeth am y Diwydiant Dyframaethu

Y diffiniad o ddyframaeth a dderbynnir yn rhyngwladol yw'r hyn a ddywed Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth (FAO) y Cenhedloedd Unedig: *"ffermio organebau dyfrol: pysgod, molysgiaid, cramenogion, planhigion dŵr, crocodeilod, aligatorod, crwbanod dŵr ac amffibiaid. Mae ffermio'n awgrymu rhyw fath o ymyrraeth yn y broses fagu i wella cynhyrchiant, megis stocio'n rheolaidd, bwydo, amddiffyn rhag ysglyfaethwyr ayyb. Mae ffermio'n awgrymu hefyd berchnogaeth unigol neu gorfforaethol ar y stoc sy'n cael ei fagu."*

Mae dyframaeth wedi ehangu'n gyflym ledled y byd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ffermio pysgod yw'r sector cynhyrchu bwyd sy'n tyfu gyflymaf o gwmpas y byd. Heddiw mae cynhyrchiant dyframaethol yn cyfrif am bron pumed ran o ran maint a rhyw draean o ran gwerth o'r pysgod a'r pysgod cregyn a gynhyrchir yn y byd.

Dyframaethu yn yr Undeb Ewropeaidd

Mae traddodiad maith o ffermio pysgod a physgod cregyn mewn rhai gwledydd Ewropeaidd, rhywbeth sy'n helpu i esbonio ei natur amrywiol, o'r busnes bach crefftwrol i'r cwmni diwydiannol aml-genedlaethol. Yn ôl y wefan Dyframaeth Ewropeaidd[1], mae dyframaethu yn y Gymuned Ewropeaidd yn cwmpasu tri phrif weithgarwch: ffermio pysgod y môr, ffermio pysgod cregyn y môr a ffermio pysgod dŵr croyw.

Sector cynyddol bwysig

Mae dyframaethu, neu ffermio pysgod, yn yr Undeb Ewropeaidd yn chwarae rôl debyg i'r diwydiant pysgota. Trwy gyflenwi pysgod a physgod cregyn i'r farchnad mae'n cyfrannu at leihau'r anghydbwysedd yn yr UE rhwng lefelau mewnforio ac allforio cynhyrchion pysgod. Mae'n creu swyddi hefyd mewn ardaloedd lle mae diwydiannau eraill fel arfer yn absennol. Mae'r prynwyr ar eu hennill oherwydd amrywioldeb y cynhyrchion dyframaethol sy'n cyfannu'r rhai sydd ar gael trwy bysgota traddodiadol. Mae diwydiant dyframaethol yr Undeb ehangedig (UE-25) yn cynhyrchu cyfanswm o 1.3 miliwn

[1] http://ec.europa.eu/fisheries/cfp/aquaculture_processing/aquaculture_en.htm

o dunelli o gynhyrchion pysgod y flwyddyn, sy'n werth rhyw 3 biliwn Euros. Amcangyfrifir bod dyframaeth yn yr UE yn gyfrifol am fodolaeth tuag 80,000 o swyddi amser llawn neu ran amser, sy'n gyfwerth â 57,000 o swyddi amser llawn.

O ran y maint a gynhyrchir, pedair rhywogaeth sydd flaenaf o ran y maint a gynhyrchir yn yr UE: brithyllod, eogiaid, cregyn gleision ac wystrys. O ganlyniad i'r cynnydd yn eu gwybodaeth arbenigol am anghenion pysgod wedi'u ffermio a datblygiadau mewn technoleg, mae ffermwyr pysgod wedi bod yn troi eu sylw at rywogaethau mwy anghyffredin megis draenogiaid y môr, merfogiaid môr a lledod chwith. Mae amrywio'r dewis o rywogaethau sydd ar gael yn eu paratoi'n well i wynebu cystadleuaeth o weddill y byd…

Dyframaethu yng Nghymru

Mae gan Gymru sector dyframaeth hirsefydlog sydd ar hyn o bryd yn cynnwys mentrau pysgod asgellog o'r môr a dŵr croyw, a physgod cregyn y môr. Yn ogystal mae rhywogaethau dyfrol di-asgwrn-cefn yn cael eu magu i wahanol ddibenion ar wahân i fwyd.

Ffurfiwyd Cymdeithas Cynhyrchwyr Dyframaethol Cymru (WAPA) yn ddiweddar gan aelodau o'r diwylliant gyda golwg ar hybu'r diwydiant ac ymgysylltu â'r llywodraethau.

Dangosir cwmpas y diwydiant yng Nghymru yn y tabl canol, a gymerwyd o ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru 2007*[2].

Crynodeb o'r prif gategorïau dyframaethol

Disgrifiad	Rhywogaeth	Dull	Safleoedd
Dyframaethu pysgod cregyn y môr	Cregyn gleision Wystrys	Magu ar wely'r môr, casglu silod, symud a thyfu ymlaen Magu uwchben gwely'r môr – hambwrdd a threstl	Afon Menai Bae Abertawe Afon Menai
Dyframaethu pysgod asgellog y môr	Lledod chwith, draenogiaid y môr	Systemau dyframaeth ail-gylchredeg (RAS)	Ynys Môn, Gwynedd
Dyframaethu invertebrata'r môr		Llifleoedd llawn tywod	Castell-nedd Port Talbot, Gaerfyrddin
Cynhyrchu pysgod dŵr croyw i'r bwrdd a physgota hamdden	Brithyllod cyffredin a seithliw	Tanciau ("trwy-lif") a llynnoedd	Amrywiol
Ail-stocio pysgod dŵr croyw	Eogiaid Môr Iwerydd, brithyllod	Tanciau ("trwy-lif")	Asiantaeth yr Amgylchedd, De Cymru a'r Canolbarth
Eraill, llai pwysig	Pysgod addurnol dŵr croyw ac o'r môr	Tanciau, pyllau	Amrywiol, ar raddfa fach

Dangosir cynhyrchiant y pysgod cregyn a ffermiwyd (tunelli) yng Nghymru yn 2006 yn y tabl isod; a gellir gweld pwysigrwydd y diwydiant hwn yng Nghymru i'r DU.

[2] http://new.wales.gov.uk/consultations/?lang=cy

Pysgod cregyn	Cymru	Cyfanswm y DU
Wystrys y Môr Tawel	12.5	1,290
Wystrys brodorol (gwastad)	0	86
Cregyn bylchog Berffro	-	42
Wystrys y Frenhines	-	64
Cregyn gleision	10,157	27,557
Cregyn bylchog	-	9
Cocos	-	1.2
Gwerth amcangyfrifedig (£ miliwn)	7.5	23.5

Dangosir cynhyrchiant Brithyllod Seithliw, rhywogaeth sy'n allweddol mewn dyframaeth yng Nghymru a Lloegr (2006)[3], yn y tabl isod:

	Rhanbarth Asiantaeth yr Amgylchedd	Cymru	Cymru a Lloegr
Nifer y safleoedd	Cyfanswm	21	171
	Cynhyrchiant i'r bwrdd	1	21
	Ail-stocio / cynhyrchu i dyfu ymlaen	12	101
	Y ddau (i'r bwrdd ac ail-stocio)	8	49
Cynhyrchiant Brithyllod Seithliw	Bwrdd (tunelli)	205	4,866
	Ail-stocio / tyfu ymlaen (tunelli)	158	2,445
	Silod (miloedd)	1,970	27,233

Mae ffermydd brithyllod yng Nghymru wedi bod yn sector o bwys yn y gorffennol. Ym 1999 fe gynhyrchodd ffermydd brithyllod 532 o dunelli o frithyllod seithliw i'r bwrdd, a chynhyrchwyd 279 o dunelli ychwanegol o frithyllod seithliw a chyffredin i ail-stocio pysgodfeydd ac i'w tyfu ymlaen. Yn y blynyddoedd diwethaf hyn mae'r sefyllfa hon wedi newid o ganlyniad i nifer o ffactorau. Y ffactor pwysicaf yw nerth cynyddol y manwerthwyr mawr yng ngwledydd Prydain sydd erbyn hyn yn cyflenwi mwy nag 85% o'r holl frithyllod a brynir ar gyfer y bwrdd. Mae'r datblygiad hwn wedi gofyn lefelau cynhyrchiant uchel dros ben er mwyn sicrhau'r costau cynhyrchu isel sy'n angenrheidiol i alluogi'r cynhyrchwyr i gystadlu yn y farchnad. Mae busnesau magu brithyllod yng Nghymru'n fach, ac o ganlyniad i'r her logistig y maent yn ei hwynebu oherwydd eu pellter o brif farchnadoedd Lloegr, mae ffermydd brithyllod Cymru'n canolbwyntio ar ail-stocio a throedleoedd arbenigol eraill yn y farchnad. (O 'Study into Inland and Sea Fisheries in Wales' Nautilus Consultants, 2000)

Mae'n anodd gwybod union effaith y sectorau hyn ar ecónomi Cymru, ond mae'r ffeithiau a'r ffigurau canlynol yn rhoi rhyw syniad.

	Trosiant (£m)	Swyddi (cyfwerth â rhai amser llawn)
Dyframaethu pysgod asgellog	4.0	99
Genweirio gêm	8.2	171
Genweirio bras	39.4	90
Cyfanswm	**51.6**	**360**

Tabl 1: Cyfraniad i Ecónomi Cymru
(Addaswyd o 'Study into Inland and Sea Fisheries in Wales' Nautilus Consultants (2000)

Mae gan bysgodfeydd yng Nghymru y potensial i gynnal cyflenwad bwyd cynaliadwy. Buddsoddi yn yr ecoleg sy'n tanategu'r busnes er mwyn sicrhau elw economaidd hyfyw yw un o'r allweddi i gyrraedd cynaladwyedd yn y sector pysgodfeydd.

Cwestiynau i feddwl amdanynt

A yw diffiniad yr FAO yn cynnwys eich gweithgareddau busnes chi?

Efallai na fydd yn bosibl ichi benderfynu, gan fod y diffiniad yn gadael nifer o 'feysyd llwyd'. Mae'r FAO yn ymwybodol o'r sefyllfa, ac yn cynnig y cymorth canlynol felly[4]. Mewn ymgynghoriad â'r cyrff perthnasol, mae'r FAO a'r Gweithgor Cydlynu ym maes Ystadegau Pysgodfeydd wedi llunio diffiniad gweithredol o weithgareddau dyframaethu: *"I ddibenion ystadegol, mae organebau dyfrol a fedir gan unigolyn neu gorff corfforaethol a oedd yn berchen arnynt trwy gydol cyfnod eu magwraeth yn cyfrannu at ddyframaeth, tra bod organebau dyfrol y mae'r cyhoedd yn gallu eu casglu fel adnodd eiddo cyffredin, gyda neu heb drwyddedau priodol, yn cael eu cyfrif yn gynhaeaf pysgodfeydd dal."*

[3] http://www.cefas.co.uk/publications/finfishnews/ffn5.pdf

[4] http://www.fao.org/fishery/cwp/handbook/J. The FAO aquaculture Glossary is available at http://www.fao.org/fi/glossary/aquaculture/ default.asp

Ac: *"Gyda golwg ar helpu i ddosbarthu arferion amwys, dylid nodi:*

(a) y deëllir gan 'ransio morol' gynaeafu pysgodfeydd dal ehangedig, h.y. magu anifeiliaid dyfrol, i gael eu bwyta gan bobl yn bennaf, dan systemau cynhyrchu ar raddfa fawr, mewn lleoedd agored (moroedd, llynnoedd) lle y maent yn tyfu gan ddefnyddio cyflenwadau bwyd naturiol. Gall yr anifeiliaid hyn gael eu rhyddhau gan awdurdodau cenedlaethol a'u hail-ddal gan bysgotwyr fel anifeiliaid gwyllt, naill ai pan fyddant yn dychwelyd i'r safle rhyddhau e.e. eogiaid, neu mewn mannau eraill (merfogiaid môr, lledod).

(b) yr ystyrir cynhyrchu pysgod a ddaliwyd yn eu cynefin gwyllt ond sydd wedi cael eu magu dros dro mewn cyfleusterau dal dros dro yn ddal ehangedig."

Pam gallai'r diffiniad fod yn berthnasol i'ch busnes chi?

Gelwir diffiniad yr FAO i rym yn aml, gan gynnwys mewn perthynas â rhaglenni strategol a chyllido ar lefel Ewropeaidd. Mae'n bosibl felly, os nad yw eich busnes chi'n cael ei gynnwys yn niffiniad yr FAO o ddyframaethu, y gellid ystyried eich gweithgarwch yn amherthnasol i gyd-destun strategol ac yn anghymwys felly i gael ei gyllido.

Yn 2002 fe gyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd 'Strategaeth dros Ddatblygiad Cynaliadwy Dyframaeth Ewropeaidd'[5]. Wrth i'r cwrs hwn gael ei ysgrifennu mae'r Strategaeth dan arolwg (lansiwyd ymgynghoriad â'r cyhoedd fis Mai 2007).

Heriau

Er gwaethaf ei dwf cyflym dros y blynyddoedd diwethaf hyn, mae dyframaeth wedi taro yn erbyn nifer o broblemau.

- Mae cynhyrchu bwyd yn troi'n farchnad fwyfwy cystadleuol. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwaethygu gan lanw a thrai yn y galw, problem sydd ganddi ar y cyd ag amaethyddiaeth
- Mae cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i amddiffyn adnoddau naturiol a chryfhau diogelwch bwyd wedi arwain at amgylchiadau gweithredu mwymwy rheoledig. Mae prosiectau dyframaethu newydd, yn ogystal â rhai gweithrediadau o ddydd i ddydd, yn gorfod cael caniatâd gan nifer o awdurdodau
- Mae problemau technegol a'r perygl o glefydau yn cyfrannu hefyd at wneud y mentrau hyn yn fwy bregus. Ar ben hyn, mae'r farchnad cynhyrchion dyframaethol wedi cael ei gorlwytho gan rai rhywogaethau; mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn prisiau a llai o elw felly i gynhyrchwyr dyframaethol.

Beth yw'r effeithiau amgylcheddol dichonol?

Mae busnesau pysgota a dyframaethu'n gallu effeithio ar yr amgylchedd mewn sawl ffordd:

- **gwaredu gwastraff**, megis pysgod marw, cregyn a defnydd pecynnu
- **gwaredu carthffrydiau**, soledau mewn daliant, a llwytho dŵr â nitradau a ffosffadau: mae'r arferion hyn i gyd yn gallu effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd trwy lygru dŵr daear.

(http://www.feap.info/aquaetreat/presentation/billund_en.asp)

Strategaeth dros ddatblygiad pellach

Mae strategaeth Comisiwn yr UE'n seiliedig ar dri nod:

- Creu swyddi sicr, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar bysgodfeydd: y targed yw creu 8,000 i 10,000 o swyddi sy'n gyfwerth â rhai amser llawn dros y cyfnod 2003-2008
- Darparu cynhyrchion pysgodfeydd sy'n ddiogel ac o ansawdd da a hybu safonau iechyd a lles anifeiliaid
- Sicrhau diwydiant sy'n amgylcheddol gynaliadwy.

I gwrdd â'r nodau hyn, mae'r Comisiwn yn argymell y mesurau canlynol:

- Cyflogaeth sicr: cynyddu cynhyrchiant, gweithredu rheolaeth integredig ar ardaloedd glan môr, symbylu'r farchnad a gwella llywodraethedd
- Gwella diogelwch cynhyrchion dyframaethol a lles anifeiliaid: sicrhau lefel uchel o iechyd i'r cyhoedd ac i anifeiliaid yn ogystal â lles yr anifeiliaid
- Sicrhau dyframaeth sy'n amgylcheddol gynaliadwy: lleihau effeithiau gwastraff, mynd i'r afael â phroblem rhywogaethau estron ac organebau wedi'u haddasu'n enetig, atal llygredd a chynnal asesiadau o'r effeithiau amgylcheddol".

Cwestiynau i feddwl amdanynt

Ydych chi'n cytuno â'r dadansoddiad o'r heriau sy'n wynebu Dyframaeth, fel y maent yn cael eu disgrifio yn Strategaeth Comisiwn yr UE? Fyddech chi'n ychwanegu rhagor ohonynt?

[5] http://eur-lex.europa.eu

Ydy nodau datganedig y strategaeth yn cyfateb i'ch syniadau chi o ran y problemau y dylai diwydiant dyframaethu cynaliadwy fynd i'r afael â hwy?

Sut byddech chi'n disgrifio eich gweledigaeth chi o gwmni dyframaethu cynaliadwy?

O ble bydd y blawd pysgod a'r olew pysgod yn dod er mwyn cynnal diwydiant dyframaethu sy'n tyfu ledled y byd, os yw'r stociau o bysgodfeydd gwyllt yn cael eu hecsbloetio i'r eithaf yn barod?

http://ec.europa.eu

Fe welwch chi fwy o'r wybodaeth ddiweddaraf yma am hynt dyframaeth yn Ewrop.

Datblygiad cynaliadwy yng Nghymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r brif asiantaeth ymhlith eraill sy'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd mewndirol yng Nghymru. Gosododd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i hybu datblygiad cynaliadwy. Cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol ei Gynllun ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy *Dysgu Byw'n Wahanol* ym mis Tachwedd 2000. Dilynwyd hwn gan gynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r Cynllun mewn grym ym mis Mawrth 2001. Ers hynny mae adroddiadau wedi cael eu cyhoeddi bob blwyddyn yn monitro perfformiad, ac yn sgil ymgynghoriadau fe gyhoeddwyd Cynllun diwygiedig ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy *Dechrau Byw'n Wahanol* yn 2004.

Mae Dechrau Byw'n Wahanol 2004 yn datgan: "bydd popeth a wnawn yn cael ei lywio gan egwyddorion a gweledigaeth y Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Byddwn yn ymgorffori'r rhain yn ein gwaith ac yn mynd ati'n frwd i ddarbwyllo neu i'w gwneud yn ofynnol i eraill wneud yr un fath i sicrhau newid, e.e. awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, busnesau, y sector gwirfoddol a chymunedau. Byddwn yn ceisio eu galluogi i wneud hynny."

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol weledigaeth uchelgeisiol o Gymru gynaliadwy fydd yn golygu bod angen i bob un ohonom gymryd rhan os ydym am iddi lwyddo. Mae'r Cynulliad yn datgan y bydd ei gynlluniau'n seiliedig ar:

- Hyrwyddo economi amrywiol, gystadleuol, ag iddi werth uchel, gyda sgiliau ac addysg o safon uchel, sy'n ymateb i gyfleoedd datblygu cynaliadwy, sy'n defnyddio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd ac sy'n dosbarthu'r buddiannau orau y gellir
- Gweithredu ar gyfiawnder cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â thlodi, afiechyd, a chanlyniadau anfantais, ac yn rhoi cyfle i bobl a'u cymunedau dorri allan o'r trap tlodi
- Gweithredu yn ein hamgylchedd adeiledig a naturiol sy'n hybu balchder yn y gymuned, sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth, sy'n hybu cyflogaeth leol ac sy'n cadw gwastraff, a'r pwysau ar ynni, dŵr a thrafnidiaeth i'r lleiafswm
- Cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a helpu i greu gwlad ddwyieithog, wrth edrych yn hyderus tuag allan a chroesawu dylanwadau diwylliannol newydd
- Creu man sy'n parchu ei blant a lle mae pobl ifanc am fyw, gweithio a mwynhau bywyd o ansawdd uchel, a lle mae cenedlaethau'r dyfodol yn mwynhau gwell rhagolygon mewn bywyd heb iddynt gael cynhysgaeth o broblemau oddi wrthym ni
- Helpu pobl i fyw bywyd iach ac annibynnol, ni waeth a ydynt yn anabl, faint o incwm sydd ganddynt, neu lle maent yn byw
- Parchu pob aelod o'r gymdeithas a hybu cyfle cyfartal
- Hyrwyddo bod yn agored, partneriaeth a chyfranogaeth, fel y gall pobl chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- Cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ar lefel fyd-eang yn ogystal ag yn lleol, a chymryd i ystyriaeth effaith penderfyniadau a wnaed yng Nghymru ar y byd.

Gwelir datblygiad cynaliadwy yn aml fel mater amgylcheddol, ond mae'n gwestiwn hefyd o greu cyfoeth a mynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder[6].

Cwestiwn i feddwl amdano

Ym mha ffyrdd gallai Llywodraeth y Cynulliad weithredu fyddai'n cefnogi pysgodfeydd mewndirol yng Nghymru?

[6] http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/startlivedifferently/?lang=cy

Cymru ac SMEs[7]

- Diffinir Mentrau Bach a Chanolig Eu Maint, neu SMEs, fel rhai sy'n cyflogi rhwng 0 a 249 o weithwyr. Yn y DU mae yna 3.75 miliwn o fusnesau gweithgar, 85% ohonynt yn Lloegr. Ar draws holl ranbarthau'r DU, mae SMEs yn cyfrif am fwy na 99% o fusnesau
- Trwy'r DU i gyd, mae 55% o'r gweithlu'n gweithio mewn SMEs, ac mae SMEs yn cyfrif am 51% o drosiant ariannol
- Yng Nghymru, mae 67.1% o'r gweithlu'n gweithio mewn SMEs ac maent yn cyfrif am 61.4% o'r trosiant. Mae busnesau amaethyddol yn flaenllaw yn eu plith. Mae hyn yn rhywbeth i'w ddisgwyl, gan fod 79% o Gymru'n dir amaethyddol, 14% yn goedwigoedd a dim ond 8% yn dir trefol
- Mae SMEs sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat yn debyg o gael y bydd rhaid i'w gweithrediadau ddiwallu criteria penodol o ran cynaladwyedd cyn iddynt allu tendro am gytundebau. Fe fydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi busnesau mewn gwell sefyllfa i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu gweithgareddau ac o ganlyniad ddiwallu'r gofynion hyn.

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Allai'r galw cynyddol am gyflenwadau bwyd lleol gynyddu'r galw am bysgod i'r bwrdd?
- Allem ni weld carpiaid unwaith eto ar ein byrddau?
- Ydy'r cynnydd diweddar mewn dewis ffyrdd mwy iachus o fyw yn cael effaith ar Dyframaethu?
- Beth yw'r tair prif her sy'n wynebu eich busnes chi?

Ynghylch y prosiect

Mae'r fenter sy'n cael ei rhoi ar waith gan dîm o academyddion yn Ysgol yr Amgylchedd a'r Gymdeithas ym Mhrifysgol Abertawe yn dod a byddion i busnesau bach a chanolig eu maint (SMEs).

Mae Arferion Proffesiynol dros Ddatblygiad Cynaliadwy – neu PP4SD yn y talfyriad Saesneg – yn brosiect cenedlaethol sydd wedi dylunio a chyhoeddi defnyddiau hyfforddi, ac sy'n cynnal cyrsiau hyfforddiant ar gyfer proffesiynolion mewn datblygiad cynaliadwy.

Fe fydd prosiect Abertawe'n targedu pedwar sector busnes yn ystod prosiect un flwyddyn: Dyframaeth, Rheolaeth Amgylcheddol, Rheoli Pysgodfeydd, a Gweithgynhyrchu Amaethyddol.

Fel rhan o ymrwymiad sector Addysg Uwch i weithio gyda diwydiant a'r gymuned ehangach, nod prosiect PP4SD yn Abertawe yw cynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint (SMEs) yng Nghymru i fagu hyder trwy ymgorffori egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu harferion gweithio.

Fe fydd prosiect PP4SD yn Abertawe'n darparu gweithdai un-dydd di-dâl a gwasanaeth ymgynghori ynghylch datblygiad cynaliadwy ar gyfer sefydliadau SME ledled Cymru.

Dywedodd Cyfarwyddwraig y Prosiect, y Dr Jane Claricoates:

"Mae PP4SD yn gallu helpu SMEs i symud tuag at gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gynyddol dynn ynghylch cyflogaeth, iechyd a diogelwch, a'r amgylchedd, yn ogystal â'r galw cynyddol gan gwsmeriaid a defnyddwyr am arferion a chynhyrchion sy'n dda i'r amgylchedd. Fe all dynesiad cynaliadwy at gynllunio ac adrodd ym myd busnes helpu busnesau bach i ddod yn fwy effeithiol a chost-effeithiol a cystadleuol. Mae prosiect PP4SD yn brawf arall o ymrwymiad Prifysgol Abertawe i ddatblygiad cynaliadwy, fel un o nifer o fentrau sy'n digwydd ar y campws."

Ariennir prosiect PP4SD gan Gronfa Fanteisio ar Wybodaeth (KEF) yr Undeb Ewropeaidd, gyda grant o £300,000 trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal, fe fydd y prosiect hwn yn Abertawe'n cydweithio'n glòs â LANTRA, Cyngor Sgiliau'r Sector i gynghori'r llywodraeth ynghylch hyfforddiant ar gyfer diwydiannau sy'n ymwneud â'r tir.

I gael mwy o fanylion am PP4SD, ymwelwch ag http://www.pp4sd.org.uk/

[7] Ystadegau am SMEs gan Wasanaeth y Busnesau Bach yn yr Adran Masnach a Diwydiant